

Y Wennol

Straeon gan ddysgwyr a Chymry Cymraeg i bawb ddarllen

e-bost: bobwennol@ntlworld.com

Cyfrol 2 Rhif 3

Yn rhad ac am ddim

Mehefin 2021



Y Bont Gwyrdd ger Castlemartin

Eich Cyfle i Adnabod Cymru

gan Rob Evans



Faint ohonoch chi sydd yn bryderus am deithio dramor ar ôl dros flwyddyn o bryderu am eich iechyd? Dyma ni ar fin dod allan o'r cyfnod mwyaf ofnadwy ein bywyd, amser pan oedd rhaid i ni aros yn y tŷ heblaw am fynd i siopa neu ymarfer corff. Methu gweld ein perthnasau a cholli rhai annwyl.

Mae'r rhaglen pigiad wedi gweithio'n arbennig o dda a phob clod i bawb sydd wedi bod yn gyfrifol am ddatblygu'r brechlyn, creu'r ysbytai dros dro a sierhau bod ni gyd yn cael y

pigiad. Mae'n rhaid dweud dim ond ychydig o wledydd y byd sydd wedi gwneud cystal â ni.

A dyma ni, bron wedi cyrraedd y pwynt ble fydden ni'n rhydd i grwydro unwaith eto. Ond fydddech chi wir yn hapus yn ymweld â gwledydd ble mae'r firws yn dal yn bodoli? Os nad ydych, cofiwch fod llawer o lefydd hardd yma yng Nghymru fach. Dw i wedi treulio'r holl amser dw i wedi bod yn ôl yng Nghymru yn crwydro o gwmpas, gweld llefydd gwahanol a dysgu am ein hanes. Dw i wir wedi mwynhau fy hun.

Mae'n wir i ddweud ein bod ni'n cael ein rhan o law ond dyna sydd yn gwneud ein gwlad mor wyrdd. Beth bynnag dach chi'n gwybod beth maen nhw'n dweud - does dim y fath beth â thywydd garw, dim ond dillad anaddas! Ac mae

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

hynny'n wir. Fel dw i'n siŵr bod chi'n sylweddoli erbyn hyn dw i o'r gogledd ond dw i'n synnu faint o bobl y de sydd ddim wedi bod yn y gogledd a faint o bobl y gogledd sydd erioed wedi bod yn y de. Ond llawer wedi bod yn Awstralia, Yr Unol Daleithiau, Hong Kong, Barbados ac ati!

Efallai mod i'n lwcus, nes i dreulio fy neg mlynedd gyntaf yn sir Fôn a fy arddegau yn sir Benfro felly mae gen i drwydded teithio ar gyfer bob rhan!

Mae'r llun ar y dudalen flaen yn dangos un o berlau Cymru, y Bont Werdd ger Castlemartin. Gan fod yr ardal yn rhan o'r maes tanio nid yw'r llwybr ar agor trwy'r amser ond byddech yn eithaf sicr o gael mynediad ar y penwythnosau. Er mwyn bod yn hollol sicr chwiliwch am 'Castlemartin Firing Range' ar y we.

Dw i wrth fy modd yn mynd i fan hyn ac mae'n hawdd cyrraedd, mae hyd yn oed maes parcio tua chan llath o'r bont. Dw i'n cael atgofion melys bob tro dw i'n dod yma, atgofion am Mam a Dad. Roedden nhw'n byw yn St Florence ger Dinbych y Pysgod ac un tro ar ddiwrnod gwyntog es i â nhw allan yn y car. Roedden ni'n mynd trwy Castlemartin a finnu'n meddwl y bydd hi'n syniad da i dynnu llun o'r môr gwyllt yn torri yn erbyn y bont. Dywedais bydd yn well iddyn nhw aros yn y car a ffwrdd â fi. Dwn i ddim pam, ond ces i deimlad bod rhywun yn fy nilyn a throis i weld - dyna oedd Mam a Dad yn brwydro yn erbyn y gwynt er mwyn perswadio fi i ddychwelid at y car! "Robin bach tyrd o 'na, mae'n llawer rhy wyntog i ti!" Chi'n gweld, dydi hi ddim o bwys faint o oed ydych chi dach chi dal yn blant yn llygaid eich rhieni, er ro'n i yn fy chwedegau hwyr ar y pryd.

Wrth weld nhw tu ôl i mi nes i godi'r camera i dynnu llun sydyn, roedd hi'n amhosib sefyll yn stond ac maen nhw'n edrych yn debyg iawn i Batman a Robin tydyn!



Mam a Dad - neu Batman a Robin

Mwy am y Y Cynllun Iaith

Dyma ymateb ges i gan gyd-osodwr Yr Hogwr, papur bro Ogwr

Annwyl Rob,

Diolch yn fawr am yr erthygl. Yn anffodus mae "Yr Hogwr" yn un o'r papurau Bro sydd ddim yn cyhoeddi ar hyn o bryd achos fod y rhai oedd yn rhoi'r papur at ei gilydd wedi gorfod hunan ynysu dros y cyfnod clo. Byddaf yn cadw'r erthygl ar gyfer ei chyhoeddi pan fydd pethau yn dod i ryw fath o normalrwydd.

Rwy'n cytuno gyda beth rydych yn ddweud ond - er gwybodaeth

a. mae Capel y Tabernacl Porthcawl wedi cynnal Bore Coffi Dysgwyr ar y Sadwrn cyntaf bob mis ers nifer fawr o flynyddoedd. Digwyddiad poblogaidd iawn. Wrth gwrs daeth Covid a'r cyfan i ben.

b. mae'r dysgwyr yn ardal Ogwr, gyda help Cymry Cymraeg yn y dechrau, wedi sefydlu Cymdeithas Hanes Bro Ogwr. Y dysgwyr sydd yn trefnu popeth, cadw cofnodion pwyllgorau, cyflwyno siaradwyr a'r cyfan drwy gyfrwng y Gymraeg, dim ond cefnogi wnaeth y rhai fel fi. Dros y cyfnod clo maent wedi gallu trefnu sawl noson rithiol ar Zoom.

c. Un o weithgareddau Papur Bro "Yr Hogwr" yw cynnal Noson Hwyl yr Hogwr yn flynyddol ers tua deunaw mlynedd. Noson o gystadlaethau ysgrifenedig, rhyw fath o 'Steddfod fach,' ac mae 'na bob blwyddyn gystadleuaeth ar gyfer dysgwyr. Mae'r cyfraniadau pawb ddaeth yn iaf, 2il neu 3ydd wedyn yn cael eu cyhoeddi yn yr Hogwr, hyn yn sicrhau fod cyfraniadau'r dysgwyr yn gweld golau dydd.

Felly mae 'na bethau yn mynd ymlaen sydd yn ceisio cefnogi dysgwyr yn lleol.

Pob dymuniad da

Tom (Price)

(Cyd-osodwr Yr Hogwr)

Dw i'n falch hefyd o ddweud bod Cymdeithas yr Iaith wedi trefnu cyfarfod Zoom er mwyn trafod 'Cefnogi Siaradwyr Newydd'. Bydd y cyfarfod wedi digwydd erbyn i chi ddarllen hyn. Newyddion da iawn!

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Y Dryw Bach Anhygoel

gan Jan Hill-Tout



Un tro, amser maith, maith yn ôl, roedd cystadleuaeth rhwng yr holl adar yn y byd i gyd. Ro'n nhw eisiau gwybod pwy oedd Brenin yr Adar ond do'n nhw ddim yn gallu cytuno sut i benderfynu. Ar ôl trafod y peth am ddiwrnod, cytunon nhw i gael cystadleuaeth i weld pa un gallai hedfan yr uchaf. Cyrhaeddodd dydd y digwyddiad ac roedd pob math o aderyn yna – brain, hwyaid, llinosiaid, drudwy, dryw bach – ac wrth gwrs aderyn mwyaf a chryfaf yn y byd, yr eryr.

Roedd pob un o'r adar yn meddwl bod yr eryr yn mynd i ennill ond er hynny ro'n nhw'n trio eu gorau glas i hedfan mor uchel ag y gallan nhw. O dipyn i beth roedd yr adar bychan yn rhoi'r gorau i'r her, nes dim ond yr eryr oedd ar ôl. Roedd yr eryr yn falch dros ben i fod yn Frenin yr Adar ond pwy oedd yn canu uwch ei ben? Y dryw bach ynte! Cydiodd yr aderyn dichellgar yn nyn ym mhlu'r eryr ac ymlaciodd, a phan gyrhaeddodd yr aderyn enfawr at y man uchaf, roedd y dryw yn gallu hedfan i fyny tipyn bach mwy. A dyna fe - Brenin yr Adar!

Anhygoel? Wel pwy ag ŵyr ond dw i'n meddwl bod bywyd go iawn y dryw yn anhygoel hefyd. Nid yr aderyn lleiaf yng Nghymru yw'r dryw, y dryw rhuddgribog yw'r lleiaf, ond serch hynny aderyn bach iawn sy'n pwyso dim ond 6 gms yw'r dryw, yr un pwys â dwy geiniog. Er gwaethaf hynny, am ei faint, mae e'n canu yn uchaf na chyw ceiliog. Ro'n i'n synnu i ddysgu bod dryw gwryw yn amlbriod gyda mwy nag un fenyw ar y pryd, ac weithiau hyd at 4. Hefyd, mae gwrywod yn codi nifer o nythod ac wedyn yn gwahodd benywod i ddewis un ar gyfer magu eu cywion.

A dyma fy ffaith olaf - achos ei faint, mae e'n anodd i ddryw bach cynhesu ei hun yn y tywydd oer. Fel canlyniad, er eu bod nhw'n hollol diriogaethol yn y gwanwyn, dros y gaeaf maen nhw'n clwydo gyda'i gilydd. Yn Norfolk ym 1969

cawson 61 o adar eu ffeindio yn yr un glwyd. Waw. Weithiau mae'r gwir yn ryfeddaf na ffuglen.

Mae rhai chwedlau yn cael eu cysylltu â'r dryw bach. Er enghraifft, wnaeth arwr Celtaidd 'Llew Llaw Gyffes' ennill ei enw gan ladd dryw bach gyda charreg. Hefyd roedd Cristnogion cynnar yn credu bod y dryw bach yn gyfrifol am fradychu Sant Steffan i'w elynion ar 26ain o Fis Rhagfyr, gan ddefnyddio ei gân uchel. Ar ôl hynny cafodd y dydd ei enw Diwrnod Dryw Bach, pan roedd pobl yn ei hela, a mynd â fe o gwmpas y pentref, yn farw neu yn fyw - druan o'r dryw bach. Maen nhw'n dal i ddatlu 'Hunt the Wren Day' yn Iwerddon ac yn y gorffennol roedd traddodiad o hela'r dryw yn digwydd yn Sir Benfro. Dych chi'n gallu gwrandao a'r grŵp gwerin Gymreig 'Fernhill' yn canu cân 'Hela'r Dryw' ar YouTube. Mae hi'n hyfryd ac yn werth gwrandao arni.

Dw i ddim yn arbenigwyr adar ond dw i wedi mwynhau dysgu am y dryw bach anhygoel. Tybed os oes adar eraill yng Nghymru gyda straeon rhyfedd amdanyn nhw - gawn ni weld - prosiect ar gyfer diwrnod arall yw hynny.

Er mwyn clywed, a gweld, y dryw yn canu ewch at <https://www.youtube.com/watch?v=uMCuZctrE10>

Dathliadau VE Day 1945 – 2020

gan Bruce Lervy



Roedd 5ed Mai 2020 yn ddydd dathlu 75 flynyddoedd ers diwedd yr Ail Ryfel Byd. Rhwng 1939-1945 roedd rhyfel Prydain yn erbyn Yr Almaen. Collodd yn agos at 75 miliwn o bobl eu bywyd. Dioddefodd trefi dros Brydain gan fomio di-bendraw y Blitzkrieg, cyfnod o fomio ffyrnig yn parhau nos ar ôl nos. Abertawe oedd un o'r trefi cafodd ei gyrchu, tref â diwydiant trwm a phorthladd. Ond hefyd roedd bomiau yn glanio yn fwriadol ar gartrefi a chanol y dref yn achosi problemau seicolegol ar y boblogaeth.

Gyda gwledydd Prydain, yr Unol Daleithiau, Ffrainc a Rwsia yn cyd-ymhladd cwympodd y Natsiaid yn y pen draw. Ar y pryd roedd pawb dan bwysau enbyd. Mae'n gamarweiniol i

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com



ddweud mai'r unig gyfyngiadau, o achos y rhyfel, oedd cyfyngiadau ar fwyd. Roedd hefyd yr orfodaeth i sicrhau nad oedd unrhyw olau i'w weld o'r ffenestri ac yn bwysicach byth, bod mynediad i'r llochesau cylch-awyr i'r rai priodol unwaith bod y seiren yn canu. Roedd rhaid i bawb gael, a dangos pan oedd rhaid, dogfen adnabod. Dwi'n cofio rhif fy DA o hyd, sef XRHD 13. Y peth pwysig oedd y parodrwydd i bawb cydweithredu gyda'r rheolau cenedlaethol.

Mae pethau eraill yn dod yn ôl ataf i. Dwi'n cofio sŵn y seiren rhybudd. Bob tro dw i'n clywed seiren cwmni diwydiannol o'r un tŷn dw i'n cael croen gŵydd unwaith eto.

Roedd yn dipyn o syndod bod pobl eisiau dathlu diwedd y rhyfel pan oedd y rhyfel yn erbyn Siapan yn parhau. Dros y wlad roedd clychau'r eglwysi yn canu, roedd pobl yn gallu agor y llenni a chynnau coelcerthi. Mewn trefi a phentrefi dros y wlad daeth pobl at ei gilydd i drefnu partïon yn y stryd. Dwi'n cofio ein parti gyda byrddau a chadeiriau yn llenwi'r strydoedd. Dw i'n cofio'r parti yn iawn achos roeddwn yn eistedd wrth ochr bachgen gyda brech yr iâr, ges i'r frech hefyd ychydig o ddyddiau wedyn.



Gyda'r amser i ddathlu'r 75 mlynedd yn agosáu (blwyddyn 2020) roedd pobl yn

sylweddoli bydd bron neb ar ôl i ddathlu'r canmlwyddiant. Trefnodd partïon llafurfawr dros y wlad i gyd. Yna daeth y firws Cofid-19 i chwalu bywyd cyffredin. Roedd pawb i fod i aros adref, golchi eu dwylo'n aml a neb i gyswllt ei gilydd. Roedd rhaid i lawer fynd i'r ysbyty a wnaeth llawer farw. Yn 2020 doedd e ddim yn bosib i bobl gasglu wrth ei gilydd. Roedd heolydd yn hollol ddistaw heblaw am sŵn ambiwlans yn mynd ar ras gyda chleifion at yr ysbytai.



Roedd gelyn marwol ar droed unwaith eto yn union fel adeg y rhyfel ond y tro yma roedd y gelyn yn dawel ac yn anweledig. Unwaith eto buodd yn angenrheidiol bod pobl yn gwrando â dilyn canllawiau er les pawb.

Gobeithio bydd yn bosib trefnu dathliad cwmp y Corona firws!

I ddysgwyr safon Mynediad

Crwydro sir Benfro

gan Rob Evans

Mae'n ddiwrnod braf. Dw i eisiau mynd allan i grwydro. Beth am fynd i sir Benfro? Dewch efo fi!



Barod? Ffwrdd â ni. Mae llawer o geir ar y ffordd. Pawb yn mynd i Ddinbych y Pysgod. Dyn ni ddim yn mynd i Ddinbych y Pysgod. Mae'n rhy brysur. Mae llefydd mwy tawel ar lannau'r afon Cleddau.

Dyma ni yn y maes parcio yn edrych ar Gastell Carew. Mae'n dawel yma. Mae pobl yn cerdded eu cŵn. Dach chi'n hoffi Castell Carew? Dydw i ddim eisiau byw yna, does dim ffenestri!

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com



Castell Carew

Dyn ni'n mynd i Cresswell Quay rŵan, mae tafarn yn Cresswell Quay - y Cresselly Arms. Mae llawer o bobl yn eistedd tu allan yn cael bwyd yn yr haul.

Mae cerrig stepiau yn yr afon. Allech chi groesi i'r ochr arall, ond well i chi ddim. Dw i eisiau mynd â chi i Lawrenny rŵan. Dyn ni bron wedi cyrraedd Lawrenny ac mae'r ffordd yn mynd ar lan yr afon. Mae lle i aros wrth ochr y ffordd. Mae'r llanw allan ond mae cychod yn y dŵr, does dim gwynt ac mae'r cychod yn llonydd.

Dyma ni wedi cyrraedd Lawrenny ac mae byrddau'r caffi yn llawn ond does dim ots, dw i wedi dod â phicnic. Dach chi wedi dod â phicnic? Da iawn. Mae lle i eistedd yn erbyn y wal. Mae'r afon o'n blaenau ni ac mae'r haul yn boeth. Dw i bron â mynd i gysgu!

Mae pobl yn mwynhau'r haul. Mae pobl yn teimlo'n well pan mae'r haul allan!

A finnau hefyd!

Pob hwyl tan y tro nesaf!

Geirfa

Crwydro - to wander
Ffwrdd â ni! - off we go!
Dinbych y Pysgod - Tenby
Ar lannau - on the banks of
Cerrig stepiau - stepping stones
Well i chi ddim - you'd better not
Llanw - tide
Cychod - boats
Yn llonydd - still
Byrddau - tables
Does dim ots - doesn't matter
Yn erbyn y wal - against the wall
O'n blaenau ni - in front of us

I ddysgwyr safon Sylfaen

Pete
gan Cerys Paschali



Cannwyll llygad ei fam oedd e - yr unig fab ymhlith pum merch oedd yn ffwdanu drosto'n gyson. Dyn ifanc golygus â llygaid brown mawr. Cafodd ei ddrafftio i'r Almaen lle dysgon nhw fe i baffio. Braidd yn llwyddiannus hefyd - tan y ddamwain a'i lloriodd yn y cylch. Gwnaeth y meddygon milwrol eu gorau glas i achub y llygad ond methon nhw. Rhyddhawyd yn gynnar a daeth e adre fel arwr yng ngolwg ein teulu. Dal yn olygus, ond heb gallu edrych yn syth arnon ni; roedd bob tro un llygad a oedd yn edrych at y gornel. Byddai'n ein trywanu gyda'i un llygad da a dargyfeirio ein sylw gyda'i jôcs a straeon budr. Ni wnaeth hynny ei rwystro rhag dal llygad un o ferched harddaf y cwm. Roedd ei llygaid glas golau yn disgleirio gydag edmygedd pryd bynnag roedd hi'n edrych arno fe.

Cymeriad ei bentref oedd e - roedd pawb yn ei adnabod e fel Pete, er oedd e'n Wncwl Ifor i ni. Dechreuodd e hyfforddi bois caled a chyhyrog y Rhondda i baffio. Wedi'r cyfan, eu hunig obaith am lwyddiant yn y dyfodol - y llwyddiant yr oedd e wedi'i golli ei hun - oedd dyrnu eu ffordd allan o'r cwm. Roedd yn ddyn poblogaidd a pharchwyd gan bawb. Mab cariadus, roedd e'n canu ei gorn pob bore ar ei ffordd i'w waith wrth basio tŷ ei fam, fel y byddai hi'n gwybod, yn gorwedd yn ei gwely, nad oedd e wedi gorgysgu. Mae e wedi ei cholli hi, a phob un o'i chwiorydd ond un, a'i annwyl wraig hefyd.

Hen dyn nawr, mae ei goesau wedi plygu ac mae cataract yn ei un llygad da. Mae e'n eistedd yn ei gadair esmwyth ar bwys y ffenestr, ar ei ben ei hun yn ei dŷ teras bach. Ond nid yw'n unig

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

chwaith, mae e'n ailchwaru yn llygad ei feddwl ei gampau yn ddyn ifanc. Mae'r atgofion melys hyn yn cadw cwmni iddo fe wrth iddo aros i adael.

Geirfa

Cannwyll llygaid - the apple of her eye
Ffwdanu - to fuss
Paffio - to box
Llorio - to floor
Y cylch - the ring
Gwneud y gorau glas - to do the very best
Arwr - hero
Yng ngolwg - in the eyes of
Trywanu - to strike
Dargyfeirio - to diverge
Disgleirio - to shine
Edmygedd - admiration
Hyfforddi - to train
Cyhyrog - muscular
Gwneud yn dda - to recompense
Parch - respect
Canu ei gorn - to sound his horn
Llygad ei feddwl - his mind's eye

Y Cymry a Llundain

Siopau Adrannol

gan Martin Jones

Roedd y fasnach mewn brethyn a nwyddau gwlanog Cymreig wedi bod yn mynd ymlaen ers canrifoedd, ond aeth o nerth i nerth yn ystod y ddeunawfed ganrif, yn enwedig ar ran hosanau. Dywedid taw dim ond hosanau gwlan Cymreig byddai George III yn ei wisgo! Yn wreiddiol, byddai'r Cymry'n gwerthu eu nwyddau mewn marchnadoedd, ond gyda threigl amser bydda rhai ohonyn nhw'n sefydlu siopau. Yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg arbenigedd y Cymry oedd y busnes brethynnau yn Llundain, yn ail dim ond i'r fasnach llaeth.

Tyfodd rhai o'r siopau hyn i mewn i siopau adrannol â ddaeth yn enwau cyfarwydd, megis Jones Brothers o Holloway, Peter Jones o Sloane Square, a D.H. Evans o Oxford Street. Roedd y rhain yn fusnesau mawr, a bydden nhw'n hysbysebu yng Nghymru am weithwyr - yr hyn a

arweiniodd i fyddin o ddynion a merched ifanc o Gymru'n cael eu cyflogi yn y brif ddinas.

Y brodyr Jones oedd y cyntaf o'r siopau hyn. Agorodd William Pierce Jones siop fach yn Holloway ar ddiwedd y 1860au. Gyda help ei frawd, sefydlodd e fusnes ffyniannus, ac erbyn 1877 roedd y brodyr yn berchen ar res o bedair siop. Wedyn, ym 1892, cafodd y rhes o siopau ei hamnewid gan adeilad ysblennydd o chwe llawr yn gwerthu pob math o bethau - siop adrannol go iawn. Ar y naill law, gofaldodd y brodyr am eu gweithwyr yn iawn: uwchben y siop, roedd llety i 250 o ddynion, yn ogystal ag ystafelloedd cymdeithasol, llyfrgell, ac ystafelloedd cinio i ddynion a merched. Roedd hefyd clybiau chwaraeon (gan gynnwys pêl-droed, criced, a nofio), cerddoriaeth, a drama; a dosbarth Beibl. Ond ar y llaw arall, roedd y gwaith yn galed iawn, ac roedd yn rhaid i'r staff weithio 74 awr yr wythnos, ac mae rhai haneswyr yn honni roedd cyfradd uchel o glefydau ymhlith y gweithwyr.

Roedd hanes siop Peter Jones yn debyg. Daeth Peter Jones o Gaerfyrddin i Lundain yn 1871, ac agorodd siop brethynnau yn Marlborough Road. Roedd yn fusnes llwyddiannus iawn, ac yn 1877 symudodd e i Kings Road. Parhaodd y busnes i ffynnu, ac yn fuan roedd e wedi prynu saith siop mewn rhes yn Kings Road. Erbyn 1890, roedd e'n cyflogi tri chant o weithwyr, ac yn yr un flwyddyn adeiladodd Peter Jones siop adrannol enfawr newydd â phum llawr, wedi'i goleuo gan drydan. Fel siop y brodyr Jones, roedd llawer o'r gweithwyr yn byw uwchben y siop.

Agorwyd D.H. Evans ym 1879 gan Dan Harries Evans, mab ffermwr o Lanelli. Hyfforddodd e fel brethynnwr a symudodd i Lundain ym 1878. Tyfodd y siop yn gyflym ac erbyn 1885 mae e wedi cymryd drosodd tair siop gyfagos. Parhaodd y busnes i ffynnu ac agorwyd y siop bresennol ym 1937.

Busnesau Cymreig nodedig eraill oedd siop William Owen yn Bayswater a siop Thomas Lloyd yn Oxford Street. Daeth William Owen o fferm fach ger Machynlleth ac agorodd siop o'r enw Bayswater Trimming Siop yn Westbourne Grove ym 1873. Prynododd e 12 mwy o siopau yn Westbourne Grove a Hatherley Grove ac erbyn 1883 roedd e'n cyflogi 350 o weithwyr. Rhodd William Owen bwyslais ar ffasiwn wrth iddo fe



Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

amrywio i mewn i bob math o ddillad. Roedd y busnes yn enwog o ran ei geffylau dosbarthu cain. Roedd Thomas Lloyd o Lanybydder yn 25 mlwydd oed pan agorodd e siop yn Oxford Street. Ffynnodd y busnes a thyfodd i feddiannu 14 tŷ ac roedd e'n cyflogi cannoedd o weithwyr.

Dros y blynyddoedd, cafodd llawer o'r busnesau Cymreig hyn eu llyncu gan y cadwyni mawr. Er enghraifft, daeth Peter Jones yn rhan o bartneriaeth John Lewis, a ddaeth DH Evans i feddiant Harrods ac yn hwyrach House of Fraser. Cafodd siop Thomas Lloyd ei chymryd drosodd gan Selfridges.

Mae'n amlwg bod y busnes brethynnu Cymreig yn Llundain wedi datblygu'n sylweddol yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg wrth i rai ohonyn nhw ddod yn siopau adrannol enfawr. Roedd y siopau hyn yn darparu cyfleodd cyflogaeth i filoedd o weithwyr o Gymru, ac maen nhw wedi gadael eu hól ar brif strydoedd siopau Llundain ar ffurf enwau Cymreig.

Y Gynganedd Cyfrinach Barddoniaeth Gymraeg

gan Shelagh Fishlock

Dechreuais i ddarllen bach o farddoniaeth Gymraeg yn ddiweddar, a chwrddais â thermâu fel awdl, englyn, cynghanedd, heb eu deall. Doedd esboniadau Wicipedia ddim yn helpu, dim ond hud a lledrith oedd yr holl reolau, "cyfatebiaeth cytseiniaid" gydag enghreifftiau o'r 13eg Ganrif.

Ond ym mis Chwefror ces i gyfle i ymuno â chwrs rhithiol "Cynganeddu i Ddechreuwyr," gyda'r prifardd o Aberteifi, Ceri Wyn Jones. Yn ôl y sôn mae'n cymryd o leiaf 8 mlynedd i feistroli'r cynghanedd, felly doedd 8 awr dros 2 fis ddim yn hollol ddigonol i fi ddod yn arbenigwr, ond dysgais i lawer, a ches i lawer o hwyl.

Mae hen draddodiad barddonol yn y Gymraeg, o Taliesin ac Aneurin yn y 5ed ganrif, Hedd Wyn a Waldo Williams yn y 20fed ganrif, hyd at Dic Jones, neu Gruffudd Owen, Bardd Plant Cymru 2020.

Dim pob bardd sydd yn defnyddio cynghanedd yn ei waith. Dyw "barddoniaeth gaeth" ddim at ddant pawb, felly beth yn y byd yw'r fath hon o farddoniaeth, a hefyd pa mor berthnasol yw hi'r dyddiau 'ma, heblaw yng nghystadlaethau'r Eisteddfod? Sefydlwyd rheolau'r cynghanedd yn y 13eg ganrif, "oes euraidd" beirdd y tywysogion, ac ar ôl marwolaeth Llewelyn, llyw olaf Cymru, beirdd yr uchelwyr. Un o'r beirdd enwocaf y cyfnod yw Dafydd ap Gwilym, a ysgrifennodd "Trafferth mewn Tafarn." Yn ystod y canrifoedd canlynol colodd y beirdd eu noddwyr, ond gwnaeth y traddodiad barddonol barhau. Tybed oedd perthynas arbennig ac unigryw'r rheolau â synau a rhythm yr iaith Gymraeg yn ei helpu i oroesi ac i flodeuo hyd at heddiw.

Beth am y rheolau? Dydy hi ddim yn hawdd eu hesbonio mewn paragraff, (ac nad ydw i'n ddigon hyderus i ddweud mwy amdany'n nhw) ond dyma gipolwg:

- Odl – bydd odl ar ddiwedd y llinell, a hefyd weithiau tu fewn y llinell, er enghraifft

Lluniau yw geiriau y gerdd.

Rw i'n arwr ar ôl cwrw.

- Acen – dim acen yr ardal, ond pwyslais mewn geiriau - **canol**, ystafell, Cymraeg. Mae'n bwysig hefyd gwrando ar rythm y llinell, a chlywed ble mae oedfa naturiol:

Eira mawr // yn oriau mân.

- Cynghanedd – mewn sawl ffordd wahanol, bydd cytseiniaid yn hanner cyntaf y llinell yn cael eu hailadrodd yn yr ail hanner:

Rhaid cyrraedd Rhyd-y-Ceiri

R d c r **R d c r**

Blodau gwanwyn ble daw gwenyn

Bl d g n **bl d g n**

Enw arall am y cynghanedd yw "cerdd tafod", sef cerddi sy'n cael eu siarad (neu'u canu). Mae Mererid Hopwood yn sôn am "Singing in Chains", a'r peth pwysicaf yw clywed y gerdd a mwynhau miwsig y geiriau. Does dim rhaid deall y rheolau neu ddeall pob gair i werthfawrogi'r iaith foethus.

Y mesur cynganeddol mwyaf cyfarwydd yw'r **englyn**. Cerdd o bedair llinell gyda nifer

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

rheolaidd o sillafau (10, 6,7,7). Dyma enghraifft o “Cilmeri” (lle cafodd Llewelyn ei ladd) gan Gerallt Lloyd Owen.

Triwch ei darllen yn uchel heb boeni'n ormod am yr eirfa.

Dydd byr yw pob diwedd byd; anadliad

yw cenhedlaeth hefyd;

Nid yw hanes ond ennyd;

A fu ddoe a fydd o hyd.

Yn ystod yr Eisteddfod Amgen y llynedd roedd darlith gan Osian Rhys Jones. (Mae'r fideo dal ar y We “Gwibdaith Gynganeddol”) Dyma'i ddisgrifiad o'r gynghanedd.

Miwsig unigryw'r Gymraeg yw'r gynghanedd. Mae i'w chlywed yng ngenau pob un ohonom mewn ymadroddion, diarhebbion a dyfeisgarwch ieithyddol. Mae'n hen ond ar yr un pryd yn esblygu mor naturiol â'r iaith ei hun.

Heb os nac oni bai, nid yw cynganeddion yn gerddi hawdd i'w deall, gyda geirfa a phatrymau heriol iawn i ni sy'n dysgu'r iaith. Ond dyma englyn arall gan Idris Reynolds i'n hannog i ddyfalbarhau:

Mewn gardd a fu yn harddach, a'i lliwiau

yn llawer tanbeitiach,

y mae rhosynnau mwyach

yn bywhau y border bach.

(In a garden which was once more beautiful, and its colours more vibrant, there are now roses enlivening the flower bed.)

Teitl yr englyn yw “Dysgwyr”.

Dysgu tu allan i'r Dosbarth

gan Cerys Paschali

Dechreuais i ddysgu Cymraeg gyda Duolingo fel llawer o bobl eraill. Roedd yn system wych ar y cychwyn. Chwaraeais i ar fy ffôn symudol heb syniad o nodiadau gramadeg oedd ar gael ar y wefan ond dim ar yr ap. Felly dysgais fel plentyn bach: yn gwrando a chofio, gyda gwobrau ac elfen o gystadleuaeth. Roedd yn gychwyn da. Ro'n i'n gallu dysgu ble bynnag ro'n i - ond roedd Dubai yn y Cyfnod Clo a do'n i ddim



yn mynd i unrhyw le. Wedyn darganfyddiais Helen Prosser o'r Ganolfan Dysgu Cymraeg.

Ym mis Ebrill y llynedd dechreuodd Helen ei chyfres o wersi o ddeg munud pob un (“Deg am Dri”) ar Facebook. Am syniad da i annog dysgwyr newydd a datrys problemau i ddysgwyr mwy profiadol! Ar ddiwedd y gyfres, soniodd Helen y byddai'r Ganolfan yn rhedeg cyrsiau i ddysgwyr lefel Mynediad yn rhad ac am ddim. Doedd dim esgus gyda fi! Pam lai?

Dechreuais sgipio o amgylch De Cymru'n gwneud cyrsiau Dysgu Cymraeg ar-lein. Dych chi'n gallu dilyn cyrsiau ar eich cyflymder eich hun: chwe mis i wneud un lefel neu cymerwch flwyddyn os mae'n well gyda chi! Ond mae mwy ar gael o'r Ganolfan na dim ond y cyrsiau rheolaidd. Unwaith y mis maen nhw'n trefnu Sadyrnau Siarad; mae'n gwpl o oriau bore dydd Sadwrn lle dych chi'n gallu cwrdd â dysgwyr eraill o'ch lefel chi i ymarfer siarad am amrywiaeth o bynciau. Mae Cynllun Siarad hefyd lle maen nhw'n paru dysgwyr gyda siaradwyr rhugl i sgwrsio. Ro'n i'n arfer gwneud hyn gyda'r ddynes hyfryd yng Nghaerdydd - ar-lein wrth gwrs, ond nawr mae Cymru wedi ailagor, gallwch chi gwrdd â'ch gilydd mewn parciau neu gaffis. Mae angen mwy o wirfoddolwyr Cymry Cymraeg; mae rhestrau aros gyda phob darparwr cyrsiau. Dim ond sgwrsio yw e - dim angen i fod yn diwtor. Amynedd a synnwyr digrifwch yw'r sgiliau pwysicaf a bod yn berffaith onest!

Mae cyfres lyfrau Amdani yn adnodd defnyddiol hefyd; mae'n gyfres i ddysgwyr o bob lefel, gyda geiriau ar waelod y dudalen. Hoffwn weld mwy o lyfrau fel hyn ar gael fel e-llyfr gyda llaw - mae llawer o ddysgwyr yn byw dramor heb fynediad i siopau llyfrau Cymraeg. Dw i wedi dod yn ffan fawr o S4C; dw i'n gwyllo unrhyw fath o raglen sydd ar gael ar Clic a dw i'n gweld yr is-deitlau'n wych i baratoi am beth mae'r siaradwyr yn mynd i ddweud. Mae podlediadau yn y Gymraeg yn ffordd arall i mewn i gymuned achos cymeriadau Cymraeg sy'n cael eu cyfweld wrth gwrs. Wrth fynd am dro neu wneud ymarfer corff neu goginio, dych chi'n gallu gwrando ar straeon Cymraeg a digwyddiadau newydd yn y gwahanol acenion ledled Cymru.

Darganfyddiad gwych oedd y cylchlythyr hwn a dweud y gwir - mae'n ysgafn, amrywiol ac mae

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com


Rob yn rhoi'r cyfle i bob dysgwr i ysgrifennu erthyglau am unrhyw beth. Fel mae e'n dweud yn aml: ysgrifennu yw'r ffordd gorau i ddysgu. Dych chi'n gallu anfon erthygl at eich papurau bro hefyd i'w colofn dysgwyr neu gymryd rhan mewn cystadlaethau ysgrifennu ar gyfer sefydliadau fel Merched y Wawr neu Gymdeithas Edward Llwyd neu hyd yn oed yr Eisteddfod Amgen.

Mae mwy na digon o gyfleoedd i ddysgu Cymraeg. Peidiwch ag anghofio'r nod o 1,000,000 siaradwyr Cymraeg erbyn 2050! Dw i'n credu mai dal ati yw'r peth pwysicaf dych chi'n gallu'i wneud!

Darn Bach o Bapur

gan Angharad Tomos

Adolygiad gan Martin Jones



Mae darllen yn rhan bwysig o ddysgu iaith, ac wrth i ni symud ymlaen ar ein taith Gymraeg mae angen arnon ni adnoddau sy'n addas i ba lefel bynnag rydyn ni wedi cyrraedd. Ac wrth gwrs mae detholiad da o lyfrau Cymraeg wedi'u hysgrifennu'n benodol i ddysgwyr, megis y gyfres Nofelau Nawr a'r gyfres Stori Sydyn. Ond hefyd, mae dewis arall, sef llyfrau wedi'u hysgrifennu i oedolion ifanc neu bobl yn eu harddegau: er enghraifft, llyfrau clasurol fel Tân Ar Y Comin gan T. Llew. Jones yn ogystal â llyfrau gan awduron cyfoes fel Manon Steffan Ros. Roedd llyfrau fel y rhain yn ddefnyddiol iawn i fi.

Yn ddiweddar, mae Angharad Tomos wedi ysgrifennu tair nofel i bobl ifanc seiliedig ar

ddigwyddiadau hanesyddol go iawn. Mae nofelau hyn nid yn unig yn addas i ddysgwyr, ond hefyd yn taflu goleuni ar agweddau diddorol iawn yn hanes Cymru.

Roedd adolygiad o un o'r nofelau hyn, sef Y Castell Siwgr, yn Y Wennol ym mis Chwefror. Mae'r llyfr hwnnw wedi'i ysgrifennu i bobl yn eu harddegau, tra mae Darn Bach o Bapur wedi'i ysgrifennu i ddarllenwyr iau. Mae'r stori'n seiliedig ar ymdrech teulu Beasley yn y pum degau i gael eu bil treth Cyngor Llanelli (neu Llanelly fel oedd enw'r dref yn cael ei sillafu ar y pryd) yn Gymraeg, ymdrech a barhaodd am wyth mlynedd a dod â chaledi mawr i'r teulu.

Os ydych chi heb ddarllen llyfr Cymraeg o'r blaen ac wedi cyrraedd lefel Canolradd, mae llyfr hwn yn un da i chi roi cynnig arno fe, er bydd e dipyn yn hawdd i ddysgwyr uwch. Efallai hefyd bydd darllenwyr uwch yn gweld y stori'n rhy syml (er bod hyn yn anochel oherwydd oedran y darllenwyr y mae'r llyfr yn anelu at). Ond wedi dweud hynny, efallai bod yn werth i bob dysgwr ddarllen stori safiad y Beasleys a oedd mor bwysig yn hanes yr ymgyrch dros yr iaith, yn enwedig o ran ei hysbrydoliaeth ar gyfer darlith radio enwog Saunders Lewis "Tynged Yr Iaith" ym 1962. Hefyd, efallai bydd darllenwyr iau'r Wennol yn synnu i ddarllen bod yn rhaid i Eileen Beasley roi'r gorau i'w swydd achos ar y pryd doedd merched dim yn cael gweithio fel athrawon yn Sir Gaerfyrddin ar ôl iddyn nhw briodi.

Er nad ydy'n bosib dweud bod dyfodol yr iaith Gymraeg yn ddiogel, mae llyfr hwn yn dangos pa mor bell mae sefyllfa'r iaith wedi gwella ers cyfnod safiad y Beasleys. I fi, mae'r frawddeg hon yn y llyfr am un o swyddogion Cyngor Llanelli yn dangos i'r dim yr agwedd gyffredinol at Gymraeg bryd hynny: "Roedd o ei hun yn siarad Cymraeg gartref ac yn y capel, ond Saesneg oedd iaith pethau go iawn." Diolch byth ein bod ni wedi symud ymlaen ers y dyddiau hynny!

(Mae'n bwysig iawn i chi sydd yn dysgu Cymraeg dod i wybod am y Cymry sydd wedi bod yn ddewr dros ben er mwyn cael statws i'r iaith. Dim ond os ydym yn gwybod am yr ymdrechion dros y degawdau y bydden ni'n wir gwerthfawrogi'r sefyllfa sydd yn bodoli erbyn hyn. Mae Ysgolion Cymraeg dros Gymru gyfan ac yn llwyddo. Ar hyn o bryd dw i'n darllen y

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

llyfr 'Pren a Chansen' gan Myrddin ap Dafydd. Mae'r llyfr yn adrodd hanes y 'Welsh Not' yr arferiad creulon o roi cansen i blant ysgol (hyd yn oed plant bach y flwyddyn gyntaf) os oedden nhw'n cael eu dal yn siarad Cymraeg yn yr ysgol. Doedd rhan fwyaf o'r plant yma ddim yn gallu siarad Saesneg. Byddaf yn gwneud adolygiad o'r llyfr nes ymlaen.)


Diolch byth am fywyd gwyllt! Goroesi'r cyfnod clo.

gan Anne Lloyd

Dw i mor lwcus mod i'n byw ger dau barc prydfarth – Parc Singleton a Pharc Brynmill. Galla i ladd dau aderyn ag un ergyd (dim yn llythrennol, wrth gwrs!) – mynd am dro ac ymlacio yng nghanol byd natur, fel arfer gyda fy mab. Mae'n well pan fydd yr haul yn gwenu, ond so hynny'n digwydd yn aml iawn yng Nghymru!

Dyn ni'n mynd â hadau adar a chnau, i fwydo'r hwyaid ag elyrch – nid bara achos mae bara'n denu'r gwyllanod. Pryna i fag hadau adar enfawr - tua phedwar cilogram dw i'n meddwl, ac mae e'n para am amser hir. Mae'n ddiwrnod mas rhad! Weithiau, dyn ni'n bwydo'r hwyaid ym Mharc Brynmill, ond maen nhw'n cael eu bwydo gan lawer o ymwelwyr yn yr haf. Heb chwant bwyd, maen nhw'n eithaf anghymdeithasol!

Dros y blynyddoedd, dyn ni wedi gweld amrywiaeth o adar yna – ieir bach y dŵr, gwyddau, bilidowcars (dw i'n cofio rhaglen deledu o'r enw Bilidowcar pan ro'n i'n ifanc), elyrch, hwyaid, hwyaden fach Ewrasiaidd (dim



ond un, a do, chwiliais am y llun ar-lein!!), efallai crehyrod. A pheidiwch ag a n g h o f i o 'r colomennod a'r gwyllanod.


Ac wedyn, yn ystod y cyfnod clo cyntaf, gwelon ni hwyaden gribog (crested duck). Dych chi wedi gweld un erioed? Mae hi'n enghraifft berffaith yr adeg anodd yma, gyda'i "gwallt cyfnod clo".

Ac mae mwy o fywyd gwyllt i'w weld ym Mharc Singleton. Fy mhleser pen-blwydd yn ystod y cyfnod clo cyntaf oedd mynd am dro i'r parc (ymarfer corff dyddiol caniataol, wrth gwrs) er mwyn bwydo'r gwiwerod a'r adar. Mae'r gwiwerod yn gyfeillgar iawn, yn enwedig pan fydd gyda chi gnau! Ond so'n nhw'n deall y syniad o gadw pellter cymdeithasol! Mae sawl un ohonyn nhw'n hapus i ddod o fewn metr o'n traed, os oes cnau ar y llawr.

Ond hefyd, mae peryglon i wiwerod - mae cŵn yn hoffi eu hela nhw. Un diwrnod, gwelon ni wiwer oedd yn cael ei hela gan filgi. Aeth y wiwer ar frys yn syth i'r goeden agosaf, ond camfarnodd ei naid, ac aeth hi ar ei phen i'r goeden! Ro'n ni ar bigau'r drain â'n calonau yn ein gyddfau; fyddai'r ci'n ei dal hi? Na fyddai, diolch byth. Rhedodd y milgi'n syth heibio i'r goeden, yn wahanol i'r wiwer! Sa i'n siŵr pwy oedd wedi synnu fwyaf. Gwellodd y wiwer yn gyflym, a rhedodd hi'n syth lan y goeden y tro 'ma (heb os gyda phen tost).

Fel arfer, dw i'n ymlacio yn y parc – mae curiad fy nghalon yn arafu, a dw i'n teimlo'n llonydd, nes i'r criw mawr o golomennod gyrraedd! Maen nhw'n drachwantus iawn, ac maen nhw'n dod o hyd i'r cnau yn gyflym – dw i'n meddwl bod eu golwg nhw'n well na'r gwiwerod. Efallai bod y gwiwerod tipyn bach yn dwp! Ac mae curiad fy nghalon yn cynyddu!!


I'w barhau.....



Ydw siŵr - a pheidiwch â galw i'n Dilys! Ymddiheuriadau i unrhyw Dilys sydd yn ddigon ffodys i ddarllen y cylchlythyr yma!

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Pos Val



Ar Draws

- 1) Ffodus
- 3) Ergyd â throed
- 5) Llochesu
- 7) Dig
- 8) Codwr
- 10) Peth anodd ei ddatrys
- 12) Troad
- 13) Peth

I Lawr

- 1) Ffawd
- 2) Arddangosfa
- 3) Carreg wydr glir
- 4) Gorchudd gwely
- 6) Rhoi stamp
- 7) Wyneb caled bara
- 9) Cyn hanner dydd
- 11) Rhiant benywaidd



If you've been following my FastTrack advice you will now be listening to Radio Cymru regularly, been reading books and listening to podcasts. If not, why not? Radio Cymru is there every day and free of charge, podcasts are also free of charge and have been especially selected for learners. By getting a book from your local library you could be doing them a lot of good and will have a ready supply of books to read at no charge at all!

I know it's not easy at first but if you really want to learn Welsh quickly then this is the way to do it. It will all sound like double dutch to you for a while but it will improve, I promise. I hope that you have been reading the articles in the

Wennol, they have all been written by people who have learned, they went through what you are going through and, with determination, you can get there too.

There will come a time when you have sufficient Welsh to engage in conversation, it will be stressful at first because you will have to think on your feet. If you have been in the habit of listening to the radio and to podcasts you will already be able to separate words so that you are not hearing a block of noise. Understanding what someone is saying to you is half the battle and listening to the radio is only stressful if you let it bother you.

Reading gives you more time to understand things, you can go at your own speed. You will come across words that you have learnt in your classes and they will plant themselves further into your brain. Make a point of reading something every day, it doesn't have to be a whole chapter, just a quarter or a half hour – you decide. Not only will you get to enjoy it but you will be feeding new words into your subconscious every day.

Writing is also a very important part of your learning and it gives you as much time as you like to put words together and express yourselves well. Combined with reading the results can be exceptional. Your writing will highlight things that you want to say but are not sure how. Often you will come across the answer quite naturally when reading.

Remember you can only really learn a language through using it. Reading, writing and listening to the radio makes having a conversation less stressful.

The more you do it the more you learn and the more your confidence improves. Try it and stick at it!



Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Geirfa

Adnabod Cymru

Cystal â ni - as well as we did
 Dal yn bodoli - still existing
 Tywydd garw - bad weather
 Dillad anaddas - unsuitable clothing
 Ac ati - and so on
 Trwydded teithio - visa
 Maes tanio - firing range
 Brwydro - to struggle
 Dim o bwys - not important
 Llun sydyn - quick photo

Y Dryw Bach

Y dryw bach - the little wren
 Brân/Brain - crow/crows
 Hwyad/Hwyaidd - duck/ducks
 Llinos/Llinosod - linnet/linnets
 Drudwy(od) – starling(s)
 Eryr - eagle
 Nefoedd - heavens
 O dipyn i beth - little by little
 Dichellgar - crafty, cunning
 Dryw rhuddgribog - firecrest
 Ceiliog ifanc - cockerel
 Gwryw/gwrywod - male/males
 Benyw/benywod - female/females
 Nyth/nythod - nest/nests
 Cynhesu - to get warm
 Tiriogaethol - territorial
 Clwydo - to roost
 Clwyd - roost
 Chwedl/chwedlau - legend/legends
 Cristion/Cristnogion - Christian/Christians
 Bradychu - to betray
 Gelyn/gelynion - enemy/enemies
 Hela - to hunt
 Traddodiad - tradition
 Arbenigwr - specialist

Dathliadau VE Day

Dioddef - to suffer
 Di ben draw - unceasing
 Cyrch - raid

Cyd-ymladd - to fight together
 Enbyd - awful
 Camarweiniol - misleading
 Cyfyngiadau - restrictions

Gorfodaeth - obligation
 Llochesi cylch-awyr - air raid shelters
 Dogfen adnabod - identity card
 Parodrwydd - willingness
 Cydweithredu - to cooperate
 Rheolau cenedlaethol - national regulations
 Seiren rhybydd - air-raid warning
 Yn parhau - ongoing
 Cynnau coelcerthi - to light bonfires
 Brech yr iâr - chicken pox
 Yn agosâu - getting nearer
 Canmlwyddiant - centenary
 Llafurfawr - elaborate
 Casglu wrth ei gilydd - to meet together
 Mynd ar ras - to go at great speed
 Cleifion - patients

Siopau Adrannol

Brethyn - cloth
 Busnes brethynnau - drapery business
 Siopau adrannol - department stores
 Megis - such as, like
 Amnewid - to replace
 Cyflogi - to employ
 Cyfagos - adjacent
 Ffynnu - to thrive, to flourish
 Cain - elegant

Y Gynghanedd

Barddoniaeth - poetry
 Awdl - ode
 Esboniadau - explanations
 Hud a lledrith - magic
 Cwrs rhithiol - virtual course
 Meistroli - to master
 Digonol - enough
 Arbenigwr - specialist
 Traddodiad - tradition
 At ddant - to the taste of
 Perthnasol - relevant

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Oes euraidd - golden age
 Beirdd y tywysogion - princes' poets
 Uchelwyr - noblemen
 Enwocaf - the most famous
 Noddwr - patron
 Cipolwg - a glance
 Odli - to rhyme
 Cytsain - harmony
 Iaith foethus - rich language
 Heriol - challenging
 Dyfalbarhau - to persevere

Dysgu tu allan i'r dosbarth

Nodiadau gramadeg - grammatical notes
 Gwobr - prize
 Darganfod - to discover
 Annog - to encourage
 Profiadol - experienced
 Pam lai? - why not?
 Gwirfoddolwr - volunteer
 Darparwr - provider
 Synnwyr digrifwch - sense of humour
 Cyfweld - to interview
 Ledled Cymru - all over Wales

Darn Bach o Bapur

Pa lefel bynnag - whatever level
 Detholiad - selection
 Yn benodol - specifically
 Agweddau diddorol - interesting aspects
 Ymdrech - struggle
 Caledi - hardship
 Rhoi cynnig arno fe - give it (the book) a go
 Anochel - inevitable
 Safiad - stand
 Ymgyrch - campaign
 Darlith - lecture
 Tynged - fate
 Agwedd gyffredinol - general attitude

Bywyd Gwyllt

Hadau adar - bird seed
 Hwyaaden - duck
 Alarch - swan

Denu - to attract
 Chwant bwyd - hunger
 Anghymdeithasol - unsociable
 Iâr bach y dŵr - moorhen
 Gŵydd - goose
 Bilidowcar - cormorant
 Crëyr glas - heron
 Colomen - dove
 Gwylan - seagull
 Gwiwer - squirrel
 Pellter cymdeithasol - social distancing
 Hela - to chase
 Milgi - greyhound
 Ar bigau'r drain - on tenterhooks
 Trachwantus - greedy
 Cynyddu - to increase

Atebion y Pos

Atebion

Ar Draws

- 1) Lwcus
- 3) Cic
- 5) Cysgodi
- 7) Crac
- 8) Liff
- 10) Problem
- 12) Tro
- 13) Eitem

I Lawr

- 1) Lwc
- 2) Sioe
- 3) Crisial
- 4) Cwilt
- 6) Stampio
- 7) Crwst
- 9) Bore
- 11) Mam